Yng ngala nofio Ysgolion y cylch gwnaeth y plant ymdrech dda ac roedd sawl un ohonynt ymysg y tri safle cyntaf mewn nifer o gystadlaethau.

Mae cryn brysurdeb a gweithgarwch yn yr ysgol ar hyn o bryd wrth baratoi tuag at Eisteddfod Gŵyl Ddewi yr ysgol a hefyd Eisteddfod Gylch yr Urdd.

Os oes gan unrhyw un o drigolion y Penrhyn, neu'r ardal hen luniau neu hanes o'r pentref a fyddech mor garedig â chysylltu â'r prifathro os gwelwch yn dda.